# Cyllid Cynaliadwy: Ar draws y Sbectrwm Incwm

Opsiynau incwm sydd ar gael i fudiadau gwirfoddol a chymunedol

| Rhoddwr | Cyllidwr | Prynwr | Defnyddiwr |
| --- | --- | --- | --- |
| **1. Economi Roddion** | **2. Cyllid Grant** | **3. Marchnad Strwythuredig** | **4. Marchnad Agored** |
| Rhoddion dyngarol, rhoddion gwirfoddol, caredigrwydd llwyr. Yn darparu incwm anghyfyngedig i fudiad ei ddefnyddio yn ôl ei ddisgresiwn i hyrwyddo ei nodau elusennol.<br>Incwm anghyfyngedig | Wedi'i ddarparu i gyflawni allbynnau penodol a/neu ganlyniadau y cytunwyd arnynt gan y ddwy ochr. Mae'n debygol y bydd cyllidwyr grant eisiau monitro'r hyn a wneir gyda'u buddsoddiad ac yn meddu ar ddisgwyliadau clir ynghylch yr hyn a gyflawnir.<br>Incwm cyfyngedig fel arfer | Talu am nwyddau neu wasanaethau yn unol â'r telerau a nodir mewn contract rhwng mudiad a phrynwr trydydd parti, boed o'r sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol. Wedi'i gyfyngu i ddarparu gwasanaeth ond gellir cadw tanwariant. | Yn y maes masnachu cyffredinol, gall yr ystod o wasanaethau a nwyddau y gellir eu gwerthu fod yn ddiddiwedd. Ymgymerir â rhai mathau o fasnachu er mwyn cynhyrchu elw yn unig, tra y gall mathau eraill gyfrannu hefyd at gyflawni cenhadaeth mudiad. Incwm anghyfyngedig. |

**GOFYN** ⟷ **ENNILL**

**Ffynhonnell: NCVO ©**

Mae gwahanol fathau o incwm yn cael eu cyrchu a'u rheoli mewn gwahanol ffyrdd ac yn cynnwys perthnasoedd gwahanol gyda'r unigolyn neu'r mudiad sy'n cyflenwi'r arian. Wrth i chi symud ar draws y sbectrwm o'r chwith i'r dde - o ofyn i ennill - mae lefel y disgwyliad o ran yr hyn a geir yn gyfnewid am yr incwm yn cynyddu.

Mae amrywiaeth enfawr a llu o bosibiliadau o fewn yr ystod o opsiynau. Gall cyllid cynaliadwy gynnwys yr holl ffrydiau incwm hyn, neu ystod fwy cyfyngedig – arallgyfeirio *ar draws* y sbectrwm, neu os nad yw hynny'n bosibl neu'n briodol, *o fewn* ffrwd benodol. Mae gwybod pa ffrydiau yw'r rhai cywir i'ch mudiad eu harchwilio a sut y gallwch chi ddatblygu'r gallu i'w sicrhau a'u rheoli yn allweddol i gynaliadwyedd.